**Cofnodion heb eu cadarnhau o Gyfarfod Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol Iechyd Cyhoeddus Cymru**

**A gynhaliwyd ar 12 Gorffennaf 2023 am 09:00, yn 3.5 CQ2 a thrwy Microsoft Teams**

Heb eu Cadarnhau

| | | |
|---|---|---|
| **Yn bresennol** | | |
| Nick Elliott | (NE) | Cadeirydd y Pwyllgor a Chyfarwyddwr Anweithredol |
| Kate Young | (KY) | Chyfarwyddwr Anweithredol |
| **Yn Bresennol:** | | |
| Anne Beegan | (AB) | Archwilio Cymru |
| Liz Blayney | (LB) | Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd a Rheolwr Llywodraethu'r Bwrdd |
| Tracey Cooper | (TC) | Prif Weithredwr |
| Paul Dalton | (PD) | Pennaeth Archwilio Mewnol, Gwasanaethau Archwilio a Sicrwydd, Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru |
| Huw George | (HG) | Dirprwy Brif Weithredwr, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau a Chyllid |
| Martyn Lewis | (ML) | Archwiliwr, Gwasanaethau Archwilio a Sicrwydd, Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru. (Ar gyfer eitem 3.1) |
| Alun Lloyd | (AL) | Cynghorydd Annibynnol |
| Jane Matthews | (JM) | Pennaeth Adrodd Ariannol a Rheolaeth |
| Stuart Silcox | (SS) | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Llywodraethu Integredig |
| Paul Veysey | (PV) | Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd |
| Kathryn Watts | (KW) | Archwilio Cymru |
| Jan Williams | (JW) | Cadeirydd y Bwrdd |
| Steve Wyndham | (SW) | Archwilio Cymru |

| | | |
|---|---|---|
| **Ymddiheuriadau:** | | |
| Mohammed Mehmet | (MM) | Cyfarwyddwr Anweithredol |
| Angela Williams | (AW) | Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid |
| **Ysgrifenyddiaeth** | | |
| Andrew Morton | (AM) | Swyddog Cymorth y Bwrdd |
| | | |
| Dechreuodd y cyfarfod am 09:02 | | |

| | |
|---|---|
| **ACGC 1/2023.07.12** | **Croeso ac Ymddiheuriadau am Absenoldeb** |

Agorodd NE y cyfarfod a chroesawodd pawb a oedd yn bresennol, gan nodi bod y cyfarfod hwn wedi'i gynnal yn electronig ac wyneb yn wyneb yn CQ2.

**Nododd** y Pwyllgor fod y cyfarfod yn cael ei recordio i sicrhau cywirdeb y cofnodion ac y byddai'r recordiad yn cael ei ddileu unwaith y cytunwyd ar y cofnodion yn y cyfarfod canlynol ym mis Medi 2023.

**Nodwyd** yr ymddiheuriadau am absenoldeb a dderbyniwyd.

| **ACGC 2/2023.07.12** | **Datganiadau o Fuddiannau** |
|---|---|

Datganodd y Cyfarwyddwyr Gweithredol a’r Cyfarwyddwyr Anweithredol fuddiant yn eitem agenda 3.4 Adroddiad Tâl Drafft 2022-23.

| **ACGC 3/2023.07.12** | **Adroddiadau Diwedd Blwyddyn / Datganiadau Ariannol a Llywodraethu Blynyddol** |
|---|---|
| **ACGC 3.1/2023.07.12** | **Barn y Pennaeth Archwilio Mewnol ac Adroddiad Blynyddol 2022/23** |

Cyflwynodd PD Farn derfynol y Pennaeth Archwilio Mewnol ac Adroddiad Blynyddol 2022/23, a oedd wedi'u diweddaru gyda'r Adroddiadau Archwilio diweddar o'r fersiwn drafft a gyflwynwyd yng nghyfarfod mis Mai 2023. Cadarnhaodd fod Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cael sgôr sicrwydd cyffredinol o ‘rhesymol’.

Nododd y Pwyllgor brydlondeb dychwelyd ymatebion rheolwyr i Archwilio Mewnol i gwblhau'r adroddiadau, y cyfeiriwyd atynt yn yr adroddiad fel dangosydd perfformiad allweddol ar raddfa oren. Nododd HG y bu oedi yn ystod yr ychydig fisoedd diwethaf oherwydd rhai penodiadau staff. Nododd hefyd fod y broses graffu a sicrwydd gweithredol yn sicrhau ymateb ar y cyd gan y sefydliad.

Nododd LB ymgysylltiad parhaus â PD trwy gyfarfodydd rheolaidd, a chytunodd i fynd ar ôl unrhyw oedi yn y flwyddyn i ddod i fynd i'r afael â hyn.

Ystyriodd y Pwyllgor ddau Adroddiad Archwilio Mewnol terfynol o gynllun gwaith 2022/23 a oedd wedi'u cwblhau ers y cyfarfod diwethaf ac a oedd yn rhan o'r farn flynyddol ar gyfer blwyddyn 2022/23:

- Rheoli Risg (Sicrwydd Rhesymol)
- Darparu Gwybodaeth (Sicrwydd Rhesymol)

Nododd y Pwyllgor fod y Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil a Hysbysrwydd wedi cymeradwyo'r Strategaeth Ddigidol a Data ar gyfer y Sefydliad a bod y Gyfarwyddiaeth Gwybodaeth yn bwrw ymlaen â’r camau gweithredu y manylwyd arnynt yn yr Adroddiad Darparu Gwybodaeth.

Diolchodd NE i PD am y diweddariad ar yr adroddiad.

| **ACGC 3.2/2023.05.10** | **Barn Flynyddol Archwilio Cymru (gan gynnwys ISA 260)** |
|---|---|

**Ystyriodd** y Pwyllgor Archwiliad o Gyfrifon 2022/23 ac Adroddiad Asesiad Strwythuredig 2022 Archwilio Cymru.

Heb eu Cadarnhau

Dywedodd SW wrth y Pwyllgor fod Archwilio Cymru yn bwriadu cyhoeddi Barn Archwilio Ddiamod i Iechyd Cyhoeddus Cymru. Byddai’r cyfrifon yn cael eu cyflwyno i gyfarfod y Bwrdd ar 27 Gorffennaf 2023, a byddai’r Archwilydd Cyffredinol yn ardystio’r cyfrifon ar 31 Gorffennaf 2023 yn amodol ar gymeradwyaeth gan Fwrdd Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Trafododd SW feysydd o’r cyfrifon a oedd wedi newid ers i’r Pwyllgor gael yr Adroddiad drafft yn ei gyfarfod diwethaf:

- Paragraff 6. Roedd derbyn a gwirio'r datganiadau ariannol diwygiedig i gyd yn foddhaol.
- Nid oedd y datganiadau sicrwydd gan y Prisiwr Dosbarth ac Asiantaeth Pensiynau’r GIG wedi dod i law, fodd bynnag roedd disgwyl iddynt gael eu cyflwyno cyn 31 Gorffennaf 2023.
- Nodwyd bod yr adolygiad mewnol o ffeiliau yn parhau a byddai wedi'i gwblhau erbyn 31 Gorffennaf 2023; nid oedd unrhyw faterion wedi'u nodi.
- Roedd Atodiad 1 yn cynnwys llythyr templed i'w gwblhau a'i ddychwelyd i Archwilio Cymru i gefnogi'r broses gymeradwyo ac ardystiad yr Archwilydd Cyffredinol.
- Roedd Atodiad 2 yn cynnwys copi o'r Adroddiad Archwilio arfaethedig.
- Roedd Atodiad 3 yn manylu ar y rhestr o addasiadau archwilio a wnaed i'r cyfrifon. Nid oedd yr un yn effeithio ar sefyllfa derfynol y Sefydliad ac esboniwyd addasiadau dosbarthu gwerth £5.8 miliwn.
- Roedd Atodiad 4 yn dangos pedwar argymhelliad a ddeilliodd o’r gwaith archwilio ac yn cynnig gwelliannau i’r trefniadau cau ar ddiwedd y flwyddyn:
    - Trefniadau cyfrif stoc.
    - Trefniadau datganiad o fuddiant.
    - Gwelliannau i wariant y gyflogres.
    - Gwelliannau i faterion dosbarthu.
- Roedd yr argymhellion wedi'u trafod a'u derbyn gan staff yn Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Rhoddwyd sicrwydd i’r Pwyllgor nad oedd yr ailddosbarthiad gwerth cyfanswm o £5.8 miliwn yn peri pryder. Roedd yn gyfanswm o nifer o ailddosbarthiadau o gyfrifon taladwy i groniadau ac nid un eitem yn cael ei hailddosbarthu. Derbyniodd y Pwyllgor sicrwydd bod prosesau ar waith i sicrhau na fyddai’r ailddosbarthiadau hyn yn digwydd yn y dyfodol.

Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad o argymhelliad Archwilio Cymru ynghylch trefniadau cyfrif stoc. Cadarnhaodd SW fod y safonau archwilio yn ei gwneud yn ofynnol i staff Archwilio Cymru fod yn bresennol i arsylwi cyfrif stoc lle'r oedd y stoc yn ffisegol, ac y dylai fod gan y Sefydliad gynlluniau cadarn ar waith i fodloni’r gofyniad hwn. Sicrhaodd yr Is-adran Gyllid y Pwyllgor fod gweithdrefn rheoli ariannol rheoli stoc yn cael ei datblygu ac y byddai hyfforddiant i’r Gyfarwyddiaeth yn dilyn. Byddai cyfarwyddiaethau'n gyfrifol am gwblhau cyfrifon stoc ar gais yr Is-adran Gyllid a phan fod Archwilio Cymru yn gofyn am fod yn bresennol wrth gyfrif stoc, byddai staff Cyllid yn mynd gyda nhw.

Gofynnodd y Pwyllgor i'r argymhelliad ynghylch gweinyddu a llywodraethu'r Gyflogres gael ei gyfeirio at y Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol.
**Cam Gweithredu: PV**

Heb eu Cadarnhau

Diolchodd y Tîm Cyllid i Archwilio Cymru am eu cyfarfodydd rheolaidd drwy gydol y gwaith a oedd wedi caniatáu cyflwyno'r holl ddogfennaeth i sicrhau bod y cyfrifon yn cael eu hardystio.

Yna cyflwynodd AB Asesiad Strwythuredig Archwilio Cymru 2022, a oedd yn adroddiad cadarnhaol, gyda rhai meysydd wedi'u nodi i wella'r trefniadau llywodraethu ymhellach. Roedd yr ymatebion rheoli wedi'u cyflwyno i Archwilio Cymru a byddai'r adroddiad terfynol gyda'r ymatebion hyn yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ei adolygu. Byddai'r camau gweithredu'n cael eu hychwanegu at y Traciwr Archwilio er mwyn i'r Pwyllgor fonitro eu gweithrediad.

Nododd y Pwyllgor nad oedd yr adroddiad archwilio yn cyfeirio at y safon archwilio newydd sef ISA 315. I gydnabod y newid sylweddol y rhoddwyd gwybod i'r Sefydliad amdano, y cynnydd mewn ffioedd a'r cynnydd disgwyliedig mewn llwyth gwaith ar gyfer Archwilio Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru, nodwyd nad oedd unrhyw gyfeiriad at hyn yn yr adroddiad.

Diolchodd cynrychiolwyr Archwilio Cymru i'r Pwyllgor am yr adborth a dywedasant y byddai hyn yn cael ei ystyried ar gyfer Adroddiadau Archwilio eraill. Sicrhawyd y Pwyllgor gan gynrychiolwyr Archwilio Cymru a'r Tîm Cyllid bod y prosesau newydd yn gweithio'n dda.

Nododd JW mai swm cyfyngedig o Gyfalaf Strategol oedd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru a chyda diffyg sicrwydd ynghylch cyllid yn y dyfodol, mae datblygu cynlluniau strategol yn heriol ac ychwanegodd fod llawer o wasanaethau Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gweithredu y tu allan i ystadau a reolir gan y Bwrdd Iechyd sydd y tu hwnt i reolaeth yr Ymddiriedolaeth. Pwysleisiodd JW hefyd fod y Bwrdd yn ystyried materion yn ymwneud ag ystadau fel rhan o'r Cynllun Tymor Canolig Integredig. Dywedodd HG wrth y Pwyllgor y byddai papur yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd ym mis Medi a fyddai'n manylu ar ddull strategol o ymdrin â chyfalaf gan gynnwys bidiau o'r Cynllun Tymor Canolig Integredig, ac ystadau.

Diolchodd NE i Archwilio Cymru am y diweddariad.

| **ACGC 3.3/2023.07.12** | **Datganiad Ariannol Blynyddol a Chyfrifon Drafft 2022/23** |
|---|---|

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y datganiad blynyddol drafft a chyfrifon 2022/23. Dywedodd HG wrth y Pwyllgor fod y cyfrifon diwygiedig yn dangos yr holl addasiadau a wnaed yn dilyn adolygiad ac archwilio helaeth fel y trafodwyd yn yr eitem flaenorol.

Cadarnhaodd yr adroddiad:

- Mae'r addasiadau a argymhellwyd gan Archwilio Cymru wedi'u gweithredu.
- Cofnodwyd tanwariant o £85,000 am y flwyddyn.
- Cyflawnodd y Sefydliad ei ddyletswydd statudol ariannol.
- Cyflawnodd y Sefydliad ei ddyletswydd weinyddol o ran talu credydwyr.

Diolchodd HG i Archwilio Cymru ar ran y Tîm Ariannol am y gefnogaeth a'r cyfathrebu agored wrth baratoi'r Cyfrifon ac argymhellodd y Cyfrifon i'w cymeradwyo.

Heb eu Cadarnhau

| ACGC 3.4/2023.07.12 | Adroddiad Atebolrwydd Drafft 2022/23 |
|---|---|

**Derbyniodd** y Pwyllgor yr Adroddiad Atebolrwydd drafft.

Roedd yr Adroddiad Atebolrwydd drafft wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru ac Archwilio Cymru ar gyfer sylwadau ac adolygiad ym mis Mai. Roedd eu sylwadau wedi'u hymgorffori yn yr adroddiad drafft. Roedd yr adroddiad eglurhaol yn cynnwys crynodeb o'r newidiadau a wnaed i'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Roedd yr Adroddiad Tâl yn cynnwys addasiadau i gyflogau aelodau o staff lle'r oedd eu tâl wedi'i gyfrifo mewn ffordd wahanol. Roedd mân newidiadau hefyd i'r tabl sy'n adrodd ffigurau'r flwyddyn flaenorol.

| ACGC 3.5/2023.07.12 | I’w Hargymell i’r Bwrdd |
|---|---|

Fe wnaeth y Pwyllgor y canlynol:

- Cymryd **sicrwydd** gan Farn y Pennaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2022/23 (Eitem 3.1)
- **Argymell** y Cyfrifon Ariannol a Barn Flynyddol Archwilio Cymru (ISA 260) i'r Bwrdd eu cymeradwyo. (Eitem 3.2 a 3.3)
- **Argymell** Adroddiad Atebolrwydd 2022/23 i'w gymeradwyo gan y Bwrdd. (Eitem 3.4)
- **Nodi** unwaith y byddant wedi’u cymeradwyo gan y Bwrdd, y byddai’r Cyfrifon ac Adroddiad Atebolrwydd 2022/23 yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 28 Gorffennaf 2023.

| ACGC 4/ 2023.07.12 | Eitemau i'w Nodi |
|---|---|

**Nododd** y Pwyllgor gynllun gwaith y Pwyllgor.

| ACGC 5/ 2023.07.12 | Gweinyddiaeth i Gloi |
|---|---|

Cynhelir y cyfarfod nesaf ddydd Mawrth 19 Medi 2023.

**Nododd** y Pwyllgor y byddai'r holl bapurau eraill yn cael eu cyhoeddi, ac eithrio'r Cyfrifon a’r Adroddiad Atebolrwydd drafft a fyddai'n cael eu cyhoeddi ar gyfer cyfarfod y Bwrdd.

Diolchodd NE i bawb am eu cyfraniadau a daeth â'r cyfarfod i ben.

Daeth y cyfarfod i ben am 09:50

Heb eu Ca